Adroddiad i'r	**Pwyllgor Craffu Cymunedau**
Dyddiad y cyfarfod	**9 Mawrth 2023**
Aelod / Swyddog Arweiniol	**Y Cynghorydd Barry Mellor (Aelod Arweiniol Priffyrdd a'r Amgylchedd) / Tony Ward (Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Amgylchedd a'r Economi)**
Pennaeth Gwasanaeth	**Andy Clark, Pennaeth Dros Dro Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol**
Awdur yr adroddiad	**Lowri Roberts, Rheolwr Prosiect**
Teitl	**Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Brosiect Ailfodelu'r Gwasanaeth Gwastraff**

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn ymwneud â'r bwriad i weithredu'r gwasanaeth gwastraff newydd ym mis Mawrth 2024.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'r adroddiad i hysbysu'r aelodau am gynnydd a gweithgareddau sydd i ddod i alluogi'r newid yn y gwasanaeth, ac i geisio eu barn amdanynt. Wrth i'r dyddiad gweithredu nesáu, mae'n bwysig bod Aelodau Etholedig yn derbyn yr holl wybodaeth ynglŷn ag unrhyw ddyddiadau, newidiadau a risgiau allweddol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor Craffu yn trafod cynnwys yr adroddiad a Strategaeth y Model Gwastraff Newydd (Atodiad 1), ac yn rhoi sylwadau am weithredu'r model gwasanaeth newydd.

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad 2) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr adroddiad

Gweithredu Gwasanaeth Gwastraff Newydd (Ailgylchu a Gwastraff Gweddilliol)

4.1. Bydd y model newydd ‘didoli ar ymyl y palmant’ i gasglu gwastraff y cartref i’w ailgylchu yn dechrau ym **mis Mawrth 2024**. Bydd casgliadau ailgylchu’n newid o fod yn wasanaeth bob pythefnos i wasanaeth wythnosol. Mae hyn yn rhoi mwy o gapasiti i aelwydydd ailgylchu. Bydd preswylwyr yn derbyn uned bocs troli newydd a sach ychwanegol ar gyfer cardbord. Mae’r uned bocs troli’n galluogi i wastraff ailgylchadwy’r cartref – fel gwydr, plastig, tuniau / caniau, papur a chardbord – gael ei gasglu wedi ei ddidoli.

4.2. Bydd y newid ar gyfer gwastraff gweddilliol yn digwydd ddechrau **haf 2024**, yn dilyn cyflwyno’r system ddidoli ar ymyl y palmant. Bydd hyn yn galluogi preswylwyr i ddod yn gyfarwydd â’r system ailgylchu newydd ac i ddangos yr effaith o ran lleihau’r gwastraff gweddilliol. Bydd casglu gwastraff gweddilliol yn newid o gasgliad bob pythefnos i gasgliad bob 4 wythnos. Bydd cartrefi’n derbyn biniau mwy ar gyfer gwastraff gweddilliol i gynyddu capasiti 33.3%, o 180 litr i 240 litr.

4.3. Mae gan y biniau ailgylchu glas presennol gapasiti o 240 litr, a gall cartrefi gadw’r rhain i’w defnyddio fel bin gwastraff gweddilliol, a chyflwyno’r bin du llai, 180 litr, i’w gasglu gan y cyngor. Mae hyn yn galluogi i’r biniau glas presennol gael eu hailddefnyddio tan fydd angen eu newid o ganlyniad i ddirywiad a thraul arferol. Bydd hefyd yn lleihau’r nifer o gynwysyddion sydd angen eu newid, a fydd yn arbed gwastraff, amser a chost.

4.4. Bydd trefn gadarn o ran cyfathrebu ac ymgysylltu yn cynorthwyo’r gwaith o gyflwyno’r gwasanaeth newydd, fel bod yr holl breswylwyr yn ymwybodol ac yn deall y newidiadau arfaethedig.

4.5. Y mae tua 45,000 o aelwydydd a fydd angen uned bocs troli newydd yn barod ar gyfer y newid i ‘ddidoli ar ymyl y palmant’ ym mis Mawrth 2024. Dechreuir eu danfon i aelwydydd ym mis Tachwedd 2023, a disgwylir cwblhau’r gwaith ddiwedd mis Chwefror 2024, gyda chyfnod o bythefnos ar gyfer gorffen cael trefn. Danfonir yr unedau o ddydd Llun i ddydd Gwener (gyda’r penwythnosau ar gael wrth gefn rhag ofn bydd rhywbeth wedi drysu’r amserlenni), a bydd cyfartaledd o 800 yn cael eu danfon y dydd.

4.6. Mae'r gwaith o osod yr unedau newydd at ei gilydd a'u danfon yn waith sylweddol sy'n gofyn am adnoddau sylweddol. Bydd angen mwy o weithwyr ar y gwasanaeth newydd i ymgymryd â'r rowndiau newydd. Cyflwynir y gweithwyr newydd hyn yn raddol o fis Medi 2023 mewn cyfrannau, i gynorthwyo'r gweithgareddau cyflwyno fel gosod y bocsys troli at ei gilydd a danfon cynwysyddion newydd. Mae cynllun uwch o'r gwaith cyflwyno fesul wythnos ar gael yn Atodiad 1. Yn haf 2023 bydd cynllun ardal manwl ar gael. Bydd yr aelodau a phreswylwyr yn derbyn mwy o ohebiaeth ynglŷn â'r gwaith cyflwyno i ardaloedd o ddiwedd haf 2023.

4.7. Er y bydd y gwasanaeth safonol newydd yn gweithio ar gyfer y rhan fwyaf o aelwydydd, ni fyddwn yn ei orfodi ar aelwydydd lle'r ydym yn gwybod na fydd yn gweithio. Ar hyn o bryd cesglir gwastraff i'w ailgylchu a gwastraff gweddilliol mewn bagiau o nifer fach o eiddo, e.e. rhai fflatiau, Tai Amlfeddiannaeth, ac ati. Mae datrysiad ar gyfer yr eiddo yma i gael ei gadarnhau. Y mae'n debygol y bydd y gwastraff yn parhau i gael ei gasglu mewn sachau, ond gyda'r dewis o'i wahanu yn y tarddle.

Gwastraff Bwyd, Gardd a Chynnyrch Hylendid Amsugnol

4.8. Bydd casgliadau gwastraff bwyd a gardd yn aros yr un fath, h.y. cesglir gwastraff bwyd bob wythnos am ddim, a bydd casglu gwastraff yr ardd yn parhau i fod yn wasanaeth dewisol (y telir amdano) bob pythefnos. Bydd y model newydd hefyd yn cynnwys gwasanaeth casglu tecstilau estynedig a chasgliadau newydd ar gyfer eitemau trydanol bach a batris. Mae'r manylion ar gael yn y strategaeth ategol (Atodiad 1).

4.9. Cyflwynir gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugnol newydd o fis Medi 2023. Gan fod hwn yn wasanaeth newydd, ni wyddys yn iawn beth yw'r galw, ond amcangyfrifir y bydd tua 8% o breswylwyr yn debygol o gofrestru ar gyfer y gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugnol, yn seiliedig ar y cyfraddau yn awdurdodau lleol eraill Cymru (gweler Atodiad 1 am ddadansoddiad manwl o'r data).

4.10. Mae'r gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugnol newydd yn cael ei gyflwyno'n raddol yn gynharach na'r newidiadau i'r prif wasanaeth. Gan fod gwastraff cynnyrch hylendid amsugnol yn gallu bod sylweddol, fe'i cesglir yn wythnosol. Bydd yn rhoi mwy o gapasiti ar gyfer gwastraff gweddilliol i'r aelwydydd hynny.

4.11. Mae'r gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugnol yn wasanaeth sy'n rhad ac am ddim, y mae'n rhaid cofrestru ar ei gyfer. Fe'i cyflwynir yn raddol i sicrhau bod y nifer o aelwydydd yn ddichonadwy o fewn gweithrediadau presennol y gwasanaeth. Bydd terfyn o 1,500 o aelwydydd yn y gyfran gyntaf, yn amodol ar gael diwygiad i'r drwydded yn ein safle presennol yn Lôn Parcwr. Pe na bawn yn cael diwygiad i'r drwydded, bydd rhaid gostwng terfyn y gyfran i oddeutu 1,000 o aelwydydd er mwyn caniatáu ar gyfer amser teithio i'r domen uniongyrchol ym Mharc Adfer.

4.12. Bydd cwsmeriaid y gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugnol yn derbyn cadi 40 litr a gesglir yn wythnosol, ond gellir darparu bin olwynion 140 litr i aelwydydd sydd â mwy o angen. Mae'r gwasanaeth cynnyrch hylendid amsugnol ar gyfer y mathau canlynol o wastraff diheintus yn unig: clytiau tafladwy; padiau anymataliaeth; gorchuddion / swabiau a rhwymynnau; dillad gwely tafladwy; padelli gwely a leiners tafladwy wedi eu defnyddio; weips a menig; bagiau stoma; a chynwysyddion wrin gwag (lle nad oes risg o halogiad gwaed).

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Themâu Corfforaethol?

5.1. Y prif sbardun ar gyfer newid y gwasanaeth yw cynyddu perfformiad o ran ailgylchu. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno targed ailgylchu statudol o 70% ar gyfer pob awdurdod lleol o 2024/25. Yn 2021/22 yr oedd perfformiad Sir Ddinbych o ran ailgylchu yn 64.82%, ond amcangyfrifir y bydd y model newydd yn ein galluogi i gyrraedd y targed o 70%. Bydd hefyd yn cynyddu ansawdd y deunydd i'w ailgylchu a gesglir o aelwydydd, gan fod yn fodd i allu cynhyrchu incwm o werthu deunyddiau, a chynyddu cyfleoedd ar gyfer ailgylchu dolen gaeedig.

5.2. Yn ogystal, cyflwynir 5 cerbyd casglu trydanol newydd yn rhan o'r fflyd graidd newydd. Bydd hyn o gymorth i Sir Ddinbych ddod yn fwy ecolegol gadarnhaol a symud tuag at fod yn ddi-garbon net erbyn 2030.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cwmpesir costau gweithredu'r newidiadau newydd i'r gwasanaeth o ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer paratoi a chynwysyddion o fewn cyllideb gyffredinol y prosiect.

6.2. Bydd gweithredu'n gwasanaeth newydd yn effeithio ar amryw o wasanaethau'r cyngor, gan gynnwys Gwasanaethau i Gwsmeriaid a'r Tîm Cyfathrebu, ac mae

cynrychiolwyr o'r meysydd gwasanaeth hyn wedi eu cynnwys yn y timau prosiect perthnasol ar gyfer ffrydiau gwaith paratoi.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Mae canlyniad terfynol yr Asesiad o Effaith ar Les yn gadarnhaol – gweler Atodiad 2 i gael rhagor o fanylion.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cafodd yr egwyddor o weithredu model gwastraff newydd, sy'n dilyn glasbrint Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau gwastraff, ei gymeradwyo'n wreiddiol gan y Grŵp Buddsoddi Strategol a'r Cabinet ym mis Rhagfyr 2018. Cyflwynwyd Achos Busnes wedi ei ddiweddaru hefyd i'r Cabinet ym mis Ebrill 2022, a'i gymeradwyo.

8.2. Ym mis Rhagfyr 2021 darparwyd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, ac yr oedd yr adroddiad hwn hefyd yn cynnwys Polisi Casgliadau Gwastraff wedi ei ddiweddaru.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Er nad oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn, mae'r achos busnes dros fuddsoddiad cyfalaf mawr ym maes gwastraff dros y blynyddoedd diwethaf wedi ei seilio ar oblygiadau'r model a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn o ran refeniw.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Y mae dwy risg allweddol yn ymwneud â gweithredu'r model gwasanaeth newydd erbyn mis Mawrth 2024. Y rhain yw:

- **Cymeradwyo Trwydded:** Mae gweithrediadau yn y depo newydd yn amodol ar gymeradwyo trwydded bwrpasol, a gyflwynwyd ym mis Ionawr 2023 i Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae'n rhaid cymeradwyo'r drwydded hon cyn gallu newid y gwasanaeth. Gall y broses hon gymryd tua 12 mis, ond yr ydym yn ymgysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru ar lefel weithredol a strategol ynglŷn â'r mater hwn.

- **Parodrwydd y Depo:** Ar hyn o bryd mae'r depo i fod i gael ei gwblhau yn hydref 2023. Ar hyn o bryd disgwylir y bydd hyn yn digwydd ar amser, felly dylai bod y depo'n barod ar gyfer gosod y cynwysyddion at ei gilydd a'u danfon yn barod ar gyfer y gwaith o gyflwyno i breswylwyr o fis Tachwedd 2023. Fodd bynnag, mae'r tebygolrwydd o risg na fydd y depo'n barod mewn pryd wedi cynyddu'n ddiweddar yn dilyn y newyddion bod ein prif gontractwr ar gyfer Cam 2 adeiladu'r depo (R. L. Davies) wedi mynd i ddwylo'r gweinyddwyr ar 16 Chwefror 2023. Mae'r sefyllfa hon, sy'n weddol newydd ar adeg cyflwyno'r adroddiad hwn, yn cael ei rheoli gan y Tîm Prosiect a'r Bwrdd Prosiect, ac ystyrir dewisiadau ar gyfer cwblhau'r contract maes o law.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000

11.2. Adran 7 Cyfansoddiad y Cyngor.